**Nodiadau Cyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi**

**Amser: 9am – 11am**
**Dyddiad: 19 Gorffennaf 2017**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Gweinidogion a oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC | Y Prif Weinidog |
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Julie James AC | Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth |

**Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Lloyd Powell | Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig |
| Michael Plaut | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Paul Byard | EEF (Cadeirydd Commerce Cymru) |
| Martin Warren | Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr |
| Robert Lloyd Griffiths | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Ifan Glyn | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Ben Cottam | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| David Morgan | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Heather Myers | Siambr Fasnach De Cymru |
| Nigel Keane | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Julie Cook | TUC Cymru |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Shan Morgan DCMG | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| Ian Price | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Julie-Ann Haines | Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi |
| Ian Gallagher | Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Mark Harris | Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Huw Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Lowri Morgan | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Mike Jenkins | TUC Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| James Price | Y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr, Strategaeth yr Economi a'r Seilwaith |
| Mick McGuire | Cyfarwyddwr, Busnes a'r Rhanbarthau |
| Jarlath Costello | Yn dirprwyo ar ran y Prif Economegydd, Jonathan Price |
| Sian Brown | Eitem 2 ar yr agenda |
| Jo Salway | Eitem 3 ar yr agenda |
| Rachel Garside-Jones | Eitem 4 ar yr agenda |
| Neil Surman | Eitem 5 ar yr agenda |
| Jane Anstee | Cofnodwr |
| Huw Griffiths | Cofnodwr |

## 1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a nodi'r pedair prif eitem ar yr agenda:

- Pontio o ran yr UE – Diweddariad
- Y graddau y mae byd busnes yn ymgysylltu â'r Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf yng Nghymru
- Cyflogaeth a Sgiliau – Diweddariad
- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru.

1.2 Ychwanegodd y Prif Weinidog fod pum papur i'w nodi hefyd.

1.3 Cydnabu'r Prif Weinidog fod yr aelodau wedi gobeithio gweld strategaeth drawsbynciol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, ar yr agenda heddiw. Dywedodd fod y Cabinet wedi cytuno ar y strategaeth y diwrnod cyn hynny. Fodd bynnag, yn hytrach na chyhoeddi'r ddogfen mor agos i'r toriad, penderfynwyd ei chyhoeddi'n gynnar yn nhymor yr hydref er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle priodol i graffu arni. Ychwanegodd y Prif Weinidog mai amcan y strategaeth oedd darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer penderfyniadau tymor hir. Dywedodd y byddai'r Cyngor yn cael cyfle i drafod y strategaeth yn fanwl yn y cyfarfod ym mis Hydref.

| |
|---|
| **GWEITHREDU**: Swyddogion i sicrhau bod "Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol" yn eitem ar agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref. |

## 2. Pontio o ran yr UE – Diweddariad

2.1 Rhoddodd y Prif Weinidog ddiweddariad i'r Cyngor ynghylch ei gyfarfod yn ddiweddar â Michel Barnier (Prif Drafodwr yr UE) ym Mrwsel, lle'r oedd wedi cyflwyno Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru[1]. Pwysleisiodd y Prif Weinidog flaenoriaethau'r Papur Gwyn, yn enwedig pwysigrwydd sicrhau mynediad rhydd a dirwystr i'r Farchnad Sengl. Ychwanegodd y Prif Weinidog ei fod wedi sicrhau bod Mr Barnier yn ymwybodol o rôl allweddol Cymru fel porth morol, a'r problemau a fyddai'n codi pe bai ffin a reolir yn llym yn cael ei chyflwyno rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

2.2 Dywedodd y Prif Weinidog mai dim ond bythefnos cyn i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (y Bil)[2] gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU y cafodd Llywodraeth Cymru ei weld. Yn groes i'r hyn a nodwyd mewn rhai adroddiadau yn y wasg, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Bil. Esboniodd y Prif Weinidog fod y Bil yn annerbyniol yn ei ffurf bresennol oherwydd nad oedd yn rhoi pwerau'n ôl o'r UE i'r gweinyddiaethau datganoledig fel yr addawyd. Roedd yn cynnig eu rhoi'n ôl i Lywodraeth a Senedd y DU yn unig, ac o'r herwydd esboniodd y Prif Weinidog na allai argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil yn ei ffurf bresennol.

[1] https://beta.gov.wales/brexit
[2] https://www.gov.uk/government/news/exiting-the-eu-with-certainty

Dywedodd y Prif Weinidog fod angen sicrwydd a pharhad ar fyd busnes pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac y dylai hynny gael ei gyflawni drwy barchu'r setliad datganoli a thrwy broses o drafod a dod i gytundeb.

2.3 Gofynnodd y Prif Weinidog i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gyflwyno'r papur. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar faterion sydd o bwys i Gymru. Roedd dau bapur wedi'u cyhoeddi ynghylch ymadael â'r UE a byddai dwy ddogfen fwy ffeithiol yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref. Byddai'r papurau hynny'n ymdrin â'r materion canlynol: (i) mudo a'r effeithiau posibl ar fyd busnes, amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a phrifysgolion; a (ii) dyfodol polisi economaidd rhanbarthol.

2.4 Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol drafodaethau diweddar â Llywodraeth yr Alban. Esboniodd fod y ffaith nad oedd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE wedi cyfarfod ers mis Chwefror yn achosi rhwystredigaeth i'r gweinyddiaethau datganoledig. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Ymadael â'r UE, y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yn gofyn am i ragor o gyfarfodydd gael eu trefnu ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

2.5 Cynigiodd y Prif Weinidog sefydlu gweithgor ar gyfer y Cyngor, a fyddai'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd dros yr Economi, a fyddai'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar effaith pontio o ran yr UE ar fyd busnes ac a fyddai'n darparu safbwynt gwrthrychol yn hytrach na safbwynt llywodraeth. Bwriedir i'r gweithgor adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Hydref.

2.6 Cafodd y cynnig i sefydlu gweithgor groeso brwd gan aelodau'r Cyngor, a nododd sawl aelod eu hawydd i ymwneud ag ef.

**GWEITHREDU:** Swyddogion i baratoi cylch gorchwyl a sefydlu gweithgor ar gyfer y Cyngor er mwyn trafod effaith pontio o ran yr UE ar fyd busnes.

Cododd aelodau'r Cyngor y pwyntiau canlynol hefyd.

2.7 Adleisiodd Julie Cook a Martin Mansfield feddyliau'r Prif Weinidog ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, gan rannu'r pryder nad oedd y Bil yn ei ffurf bresennol yn gyson â'r setliad datganoli. Dywedodd Derek Walker fod y sector mentrau cymdeithasol yn derbyn cymorth pwysig gan y cronfeydd strwythurol a gofynnodd a oedd rhagor o wybodaeth ar gael am Gronfa arfaethedig Ffyniant a Rennir Llywodraeth y DU.

2.8 Gofynnodd Ben Cottam a fyddai Llywodraeth Cymru yn fwy cefnogol i'r Bil pe bai'n cynnwys 'cymal machlud' neu amserlen ar gyfer rhoi pwerau'n ôl.

2.9 Pwysleisiodd Robert Lloyd Griffiths bwysigrwydd sicrwydd a hyder byd busnes ynghylch statws masnachu'r DU yn y dyfodol a sefydlogrwydd buddsoddi yn y dyfodol.

2.10 Gofynnodd David Morgan a allai'r Cyngor wahodd y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, i gyfarfod nesaf y Cyngor.

2.11 Pwysleisiodd Heather Myers bwysigrwydd mynediad i'r Farchnad Sengl a'r goblygiadau negyddol i fyd busnes pe bai ffin a reolir yn llym yn cael ei chyflwyno rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Ychwanegodd fod y Siambr wedi bod yn gweithio gyda Siambr Fasnach Iwerddon ar senarios ynghylch dyfodol y ffin.

2.12 Wrth ymateb, cadarnhaodd y Prif Weinidog y canlynol:

- er bod cronfeydd strwythurol wedi'u trefnu i bob pwrpas tan 2022, mae'r sefyllfa y tu hwnt i hynny'n ansicr ac ni wyddys sut y bydd y Gronfa Ffyniant a Rennir a gynigir gan Lywodraeth y DU yn gweithredu;

- ni fyddai cymal machlud neu amserlen yn ddigon i sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Ni fyddai cymal o'r fath yn datrys y pryder canolog ynghylch goblygiadau'r Bil ar gyfer y setliad datganoli; a

- byddai'r Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, yn cael ei wahodd i fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.

| |
|---|
| **GWEITHREDU**: Gweinidogion Cymru i ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, i'w wahodd i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. |

**3. Y graddau y mae byd busnes yn ymgysylltu â'r Bargeinion Dinesig/ Bargeinion Twf yng Nghymru**

3.1 Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn bwysig i fyd busnes a rhanddeiliaid eraill helpu i lunio'r agenda sy'n ymwneud â Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf. Gofynnodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyflwyno'r papur.

3.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol:

- fod Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd wedi cael ei llofnodi gan y 10 awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ychwanegodd fod y Gyllideb Atodol wedi rhyddhau'r £20 miliwn cyntaf i'r Fargen Ddinesig;

- bod Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn canolbwyntio ar 11 o brosiectau a bod gwaith yn mynd rhagddo'n awr i ddatblygu'r trefniadau llywodraethu a'r achosion busnes dros bob un o'r prosiectau; a

- bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithio ar ei flaenoriaethau a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at lunio Bargen Dwf.

3.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod dull rhanbarthol newydd o ymdrin â datblygu economaidd yn cael ei ddatblygu, yn rhan o'r gwaith strategol ehangach a oedd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd y bydd y dull hwnnw'n adeiladu ar batrwm y Dinas-ranbarthau ac yn helpu i sicrhau dull rhanbarthol o gyflawni'n genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â natur fratiog neu anwastad twf economaidd. Ychwanegodd y byddai'r dull rhanbarthol o weithredu'n cyd-fynd â gwaith Tasglu'r Cymoedd a'r Dinas-ranbarthau.

3.4 Croesawodd y Cyngor y diweddariad gan fynegi cefnogaeth gyffredinol i'r dull rhanbarthol o weithredu. Gwnaeth Martin Mansfield sylwadau ynghylch sut yr oedd y gwaith hwn yn ategu gwaith diwygio llywodraeth leol a sut y byddai, wrth fynd i'r afael ag anfantais ranbarthol, yn cyfrannu at agendâu Llywodraeth Cymru ynghylch gwaith teg a swyddi gwell yn nes at adref.

3.5 Roedd rhai o'r aelodau yn pryderu nad oedd partneriaid cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn effeithiol wrth ddatblygu'r Bargeinion Dinesig. Ychwanegodd Heather Myers fod gwersi i'w dysgu ym maes caffael, yn enwedig lle gallai awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod busnesau bach yn gallu cystadlu am gontractau.

3.6 Dywedodd Paul Byard y byddai'n fodlon rhannu papur yr oedd yn gweithio arno gyda'i aelodau ynghylch sicrhau bod y Bargeinion Dinesig yn gweithio er lles byd busnes.

**GWEITHREDU**: Paul Byard i rannu'r papur ynghylch Bargeinion Dinesig y mae'n ei ddatblygu gyda'i aelodau, yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.

3.7 Gwnaeth Derek Walker sylwadau ynghylch pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd priodol i fyd busnes ymgysylltu, gan gynnwys cyfle i fusnesau cymdeithasol ymgysylltu â'r gwaith o gyflawni'r Bargeinion Dinesig a gweithio'n rhanbarthol ar raddfa ehangach. Gofynnodd Ifan Glyn am ragor o fanylion ynghylch dulliau o ymgysylltu â Phwerdy Gogledd Lloegr.

3.8 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai gwaith rhanbarthol gorfodol ynghylch datblygu economaidd a chynllunio defnydd tir ac ynghylch trafnidiaeth strategol, sy'n adeiladu ar batrwm y Dinas-ranbarthau, yn annog awdurdodau lleol i gydweithredu ymhellach. Nododd fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Ddwy Fargen Ddinesig a'r gwaith sy'n cyfrannu at Fargen Dwf bosibl ar gyfer Gogledd Cymru yn enghreifftiau o'r modd y gall awdurdodau lleol gydweithio'n agosach â'i gilydd i fynd i'r afael â heriau ehangach. Dywedodd ei fod yn effro i'r ffaith bod angen i awdurdodau lleol gyflawni yng nghyswllt eu fframweithiau caffael.

3.9 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith bwysigrwydd ymgysylltu gan fyd busnes. Dywedodd y byddai sylw'n cael ei roi, wrth ddatblygu'r dull rhanbarthol o ymdrin â datblygu economaidd, i anghenion ardaloedd gwledig Cymru. Myfyriodd ynghylch pwysigrwydd gweithgarwch

trawsffiniol a'r angen i ranbarthau gydweithredu â'i gilydd a gweithio ar draws ffiniau os oedd hynny o fudd i'r naill ochr a'r llall. Dywedodd fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn enghreifftiau o hynny.

3.10 Cydnabu'r Prif Weinidog bryder aelodau'r Cyngor ynghylch ei ddymuniad i ymgysylltu'n effeithiol â gwaith sy'n ymwneud â Bargeinion Dinesig, a phwysleisiodd fod swyddogion yn ceisio trefnu cyfarfodydd rhwng aelodau'r Cyngor a thimau'r Bargeinion Dinesig.

**4. Cyflogaeth a Sgiliau – Diweddariad**

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, a gofynnodd i'r Gweinidog roi diweddariad yn dilyn cyfarfod cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru sydd wedi'i ad-drefnu.

4.2 Dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:

- fod aelodaeth Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru wedi'i diweddaru er mwyn darparu mewnbwn strategol a her gadarn i lywio sgiliau ar gyfer y dyfodol, prentisiaethau, addysg bellach, addysg uwch a pholisi dysgu gydol oes;

- bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn elfen ganolog o'r Polisi Sgiliau. Ychwanegodd y byddai Cadeirydd newydd yn cael ei benodi ar gyfer Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, ar ôl i dymor Scott Waddington fel Cadeirydd ddod i ben, ac y byddai'r Cadeirydd yn dod yn aelod swyddogol o'r Cyngor Datblygu Economaidd;

- bod sgiliau a dysgu ôl-16 yn ymddangos ym mhob rhan o'r Rhaglen Lywodraethu ac y byddent yn rhan o'r Strategaeth Genedlaethol. Roedd y blaenoriaethau fel a ganlyn:
    - creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon i bob oed
    - cynorthwyo pobl i gael y sgiliau y mae eu hangen arnynt a chadw swyddi o safon, a chael swyddi gwell yn nes at adref
    - hybu, annog a galluogi arloesedd a chysylltedd, sef y ffactorau allweddol sy'n sbarduno twf economaidd a gwaith creu swyddi;

- bod Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru yn cael ei ddatblygu, a fyddai'n cael ei fabwysiadu ar draws Llywodraeth Cymru, ac y byddai'n cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r Cynllun:

    - yn archwilio'r gwasanaethau a'r seilwaith sy'n bodoli'n barod
    - yn asesu pa mor dda y maent yn helpu pobl i ddod o hyd i waith a pharhau mewn gwaith
    - yn ystyried a ydynt yn darparu gwerth am arian i drethdalwyr Cymru;

- y byddai darpariaeth newydd o ran cyflogadwyedd yn ategu'r Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd, a fyddai'n adeiladu ar ganfyddiadau tystiolaeth

werthuso ac ymchwil ac a fyddai'n cyflwyno darpariaeth newydd o ran cyflogadwyedd dan yr enw Cymru'n Gweithio yn lle'r gyfres gymhleth bresennol o raglenni. Byddai'r ddarpariaeth dan sylw'n cynnwys tair rhaglen i'w rhoi ar waith o fis Ebrill 2019 ymlaen:

  - un rhaglen gyflogadwyedd i oedolion a dwy raglen gyflogadwyedd i ieuenctid (un wedi'i hanelu at y sawl sydd bellaf o'r farchnad lafur ac un wedi'i hanelu at y sawl sy'n nes at y farchnad lafur);

- bod y Gweinidog yn cadeirio Bwrdd Gwaith Teg, ac yr adroddir ynghylch canfyddiadau rhagarweiniol y Bwrdd yn yr hydref; ac

- y byddai'n defnyddio Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru i roi prawf ar y Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd.

4.3 Croesawodd Lloyd Powell y ffocws ar sgiliau a gwnaeth sylwadau ynghylch y ffaith bod hynny'n allweddol i wella symudedd cymdeithasol. Gwnaeth sylwadau hefyd ynghylch yr ymgysylltu cadarnhaol a fu rhyngddo ef a Phartneriaeth Sgiliau Ranbarthol y De-ddwyrain a Phartneriaeth Sgiliau Ranbarthol y De-orllewin a'r Canolbarth. Ychwanegodd fod llawer o le i wella o hyd o safbwynt cyngor ynghylch gyrfaoedd ond gwnaeth sylwadau cadarnhaol iawn ynghylch y gwelliannau a wnaed i wefan Gyrfa Cymru. Dywedodd wrth y Gweinidog y byddent yn lansio eu prentisiaethau ym mis Rhagfyr 2017 ond bod gwaith i'w wneud o hyd ynghylch sicrhau bod y prentisiaethau'n cael eu hystyried yn gyfwerth â llwybrau academaidd.

4.4 Croesawodd Martin Mansfield y dull gweithredu, gan ychwanegu ei bod yn bwysig canolbwyntio ar anghenion unigolion. Ychwanegodd fod yr agenda hon yn bwysig nid yn unig i gynorthwyo pobl i gael swydd a pharhau mewn cyflogaeth ond hefyd i sicrhau bod pobl yn gallu symud ymlaen yn eu gwaith.

4.5 Roedd Heather Myers yn cefnogi'r dull o helpu pobl i ddatblygu eu gyrfa, ond roedd yn ymwybodol o'r effaith pan fydd staff yn symud ymlaen ar ôl cael hyfforddiant y mae cyflogwr bach wedi talu amdano. Ychwanegodd fod gwaith i'w wneud o hyd o safbwynt helpu'r sawl sydd bellaf o'r farchnad lafur, a bod y ffaith bod canolfannau gwaith yn cyfeirio llawer o ymgeiswyr anaddas yn golygu nad oedd y gwasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion busnesau bach.

4.6 Dywedodd Derek Walker nad oedd y sector sgiliau, ac yn benodol ei waith gyda phrentisiaethau, yn ymgysylltu ddigon â mentrau cymdeithasol. Cynigiodd y dylai cynrychiolydd mentrau cymdeithasol fod yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau, sy'n fwrdd newydd a sefydlir yn rhan o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

4.7 Dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth y byddai croeso i brentisiaid ym maes pynciau STEM[3], gan mai un o'r heriau yw cynyddu nifer y bobl sydd mewn cyflogaeth ym maes pynciau STEM. Cytunodd fod angen sicrhau mwy o ymgysylltu gan fenywod a bod prinder menywod sy'n fodelau rôl.

[3] Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg.

4.8 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn ategu'r angen i bobl ifanc ystyried pynciau STEM, a nododd bwysigrwydd cysylltiadau rhwng ysgolion a byd busnes gan ddechrau ar lefel ysgolion cynradd. Roedd yn croesawu'r rhaglen Business Class ond nododd hefyd fod mwy o waith i'w wneud, fel yr amlinellwyd yn eu hadroddiad diweddar ynghylch menter.

4.9 Dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:

- y byddai Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo cyflogwyr i recriwtio a datblygu talent yn eu busnes;

- y disgwylir, lle mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo prentisiaethau Lefel 2, bod darpariaeth ar gyfer symud ymlaen i Lefel 3, a'i bod yn bwysig sicrhau bod cyngor ynghylch gyrfaoedd yn cyd-fynd ag anghenion byd busnes;

- bod angen gweithio'n gydgysylltiedig i roi cyngor ac arweiniad clir i unigolion; ac

- wrth ymateb i ymholiad ynghylch Busnes Cymru a Gyrfa Cymru, eu bod wedi comisiynu astudiaeth a fyddai'n archwilio manteision sicrhau bod gwaith y naill gorff yn cyd-fynd yn well â gwaith y llall.

**5. Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru**

5.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn at ddibenion ymgynghori ar 20 Mehefin, a oedd yn egluro ei hymateb i Adroddiad Hazelkorn ynghylch diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

5.2 Dywedodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth fod y papur ymgynghori'n hunanesboniadol a'i bod yn disgwyl gwaith ymgysylltu da yn ei gylch, a gwahoddodd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad maes o law. Ychwanegodd mai un prif sbardun ar gyfer yr ymgynghoriad oedd sicrhau bod y ddarpariaeth o ran addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cyd-fynd yn well ag anghenion byd busnes.

5.3 Dywedodd Heather Myers fod angen i gyflogwyr ddeall cymwysterau yng Nghymru a Lloegr a bod angen i Fagloriaeth Cymru gael ei deall a'i gwerthfawrogi yn Lloegr, o gofio bod economïau'r ddwy wlad wedi'u hintegreiddio â'i gilydd.

**6. (6a) Nodiadau a (6b) Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr**

6.1 Gofynnodd y Prif Weinidog i'r aelodau am sylwadau a gofynnwyd iddynt gytuno bod y nodiadau'n gywir.

6.2 Cytunwyd bod nodiadau'r cyfarfod yn gywir ac roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

**7. Unrhyw fater arall**

7.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod pum papur i'w nodi. Nododd y Cyngor y papurau heb wneud unrhyw sylwadau. Gofynnodd y Prif Weinidog i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw fater arall.

7.2 Soniodd David Morgan am waith trydaneiddio ar brif reilffordd Great Western a gofynnodd beth oedd y sefyllfa bresennol o safbwynt trydaneiddio'r rheilffordd hyd at Abertawe. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi gofyn am gyfarfodydd â Chris Grayling AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, er mwyn trafod pryderon ynghylch trydaneiddio'r rheilffordd yn ne Cymru, ond nad oedd Llywodraeth y DU wedi bodloni'r cais am gyfarfodydd.

7.3 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n siomedig pe na bai'r rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio hyd at Abertawe, ond ei bod yn ymddangos mai dim ond hyd at Gaerdydd y byddai Llywodraeth y DU yn trydaneiddio'r rheilffordd.

7.4 Gofynnodd Ben Cottam gwestiwn ynghylch Morlyn Llanw Bae Abertawe, ac atebodd y Prif Weinidog gan ddweud mai'r prif fater yr oedd angen ei ddatrys o safbwynt Llywodraeth y DU oedd y "pris taro". Roedd Llywodraeth Cymru wedi pwyso ar Lywodraeth y DU am benderfyniad cadarnhaol, ac mae'n dal i wneud hynny.

7.5 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar 12 Hydref.